**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-18-00 (p7)**

**Dyddiad: 25 Hydref 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora [?], Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: ADDYSG FEDDYGOL I ISRADDEDIGION YNG NGHYMRU**

**Diben:**

1. Amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch ehangu nifer y myfyrwyr israddedig sy'n dilyn cyrsiau meddygol. Mae'n dilyn ymlaen o'm papur gwybodaeth blaenorol, y gwnaethoch ei ystyried mewn cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2000.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn nodi:

- Y Cefndir
- Y Gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn – gan Is-grp yr Ysgol Glinigol
  - gan yr Is-grp Mynediad i Raddedigion
- Goblygiadau Cynllun yr NHS yn Lloegr
- Y Camau Nesaf.

**Amseru**

3. Mae dau ddyddiad pwysig ynghlwm â'r prosiect hwn:

- Is-grp yr Ysgol Glinigol i gyflwyno ei achos busnes erbyn diwedd mis Hydref
- yr Is-grp Mynediad i Raddedigion i gyflwyno ei achos busnes erbyn diwedd mis Mai 2001

**Cefndir**

4. Yn y gorffennol, rwyf wedi'ch atgoffa o'r cefndir, sef argymhellion gwreiddiol y Medical Workforce Standing Advisory Committee (MWSAC) ym 1997, oedd yn nodi'r angen am 1000 o leoedd ychwanegol ledled y DU erbyn 2005. Rydych hefyd yn ymwybodol y cytunwyd ar fframwaith i reoli'r prosiect, yn dilyn cyfarfod rhyngof i a Tom Middlehurst a chynrychiolwyr o'r NHS a'r sector Addysg Uwch, ac mae'r holl waith a gyflawnwyd ers hynny wedi dod o fewn y fframwaith hwn.

**Sut mae gwaith Is-grp yr Ysgol Glinigol yn mynd rhagddo**

5. Mae’r Is-grwp bellach wedi cyfarfod dair gwaith. Mae is-bwyllgor o’r grp wedi bod yn gwneud gwaith rhwng cyfarfodydd. Yn fwyaf diweddar, buont yn gorffen y gwaith ar nifer y myfyrwyr a allai fynd i Abertawe ar gyfer eu lleoliadau clinigol ym mlynyddoedd 4 a 5. Roedd hwn yn awgrymu y gallai Ymddiriedolaeth NHS Abertawe ymdopi gyda’r cynnydd mewn niferoedd a awgrymwyd yn wreiddiol o ganlyniad i argymhellion yr MWSAC; hynny yw, cynnydd o 65 yn nifer y myfyrwyr o fis Medi 2001 ymlaen. Fel rhan o’r broses hon, maent hefyd wedi darganfod beth fyddai costau sefydlu Ysgol Glinigol yn Abertawe, a’i effaith ar yr Ymddiriedolaethau NHS eraill sy’n derbyn myfyrwyr ym Mlwyddyn 3. Mae’r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau’r Cynulliad ar Gylch Cynllunio’r Gyllideb.

6. Mae fy swyddogion yn cydweithio gydag Ymddiriedolaeth NHS Abertawe a Phrifysgol Cymru Abertawe ar hyn o bryd, er mwyn cwblhau’r Achos Busnes. Rwyf wedi hysbysu’r Ysgrifennydd Cyllid ein bod yn rhagweld y bydd yr Achos Busnes yn barod erbyn diwedd mis Hydref 2000.

**Achos Busnes Mynediad i Raddedigion**

7. Mae’r Grp hwn wedi cyfarfod ddwy waith. Yn y cyfarfod cyntaf, roedd yr aelodau’n teimlo ei bod yn amhosibl datblygu achos busnes erbyn mis Hydref 2000 ac yn dilyn trafodaethau gyda’r Is-grp Materion Ariannol a Bwrdd y Prosiect, cytunwyd ar ddyddiad mwy realistig, sef mis Mai 2001. Rwy’n fodlon fod hyn yn cyd-fynd â’r dyddiadau targed cenedlaethol ar gyfer ehangu yn y dyfodol, fel ag a nodir ym mharagraff 11 isod.

8. Yn yr ail gyfarfod, derbyniwyd cynrychiolaethau gan Ysbyty Leicester/Warwick Avenue and St George, ble mae rhaglenni mynediad i raddedigion eisoes wedi dechrau. O ganlyniad i’r trafodaethau hyn, sefydlwyd is-bwyllgor i lunio argymhelliad cychwynnol a fyddai’n gallu esblygu’n achos busnes ffurfiol.

9. Cyfarfu’r is-bwyllgor ar 3 Hydref a bydd yn cyfarfod eto ar 25 Hydref 2000. Bydd yr is-grp llawn yn cael clywed canlyniadau’r cyfarfodydd hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddant yn cynnwys y model a argymhellir/a ffefrir a chynllun gweithredu a fydd yn amlinellu sut y gellid paratoi’r achos busnes erbyn y dyddiad targed.

**Cynllun yr NHS yn Lloegr**

10. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y Cynllun uchod wedi creu dau darged newydd ar gyfer ehangu cyrsiau meddygol i israddedigion yn Lloegr:

- 1000 yn fwy o fyfyrwyr erbyn 2002
- 1000 yn fwy o fyfyrwyr erbyn 2005

11. Mae’r siart sy’n amgaeedig fel Atodiad A yn amlinellu’r gwelliannau posibl ochr yn ochr â chyfran addas o’r targedau hynny ar gyfer Cymru, yn ddibynnol ar gytundeb i gyllido’r gweithgareddau priodol yn

ystod y blynyddoedd nesaf.

12. Fe welwch o'r siart y gallem eto gael yr un lefel o ehangu yma ag a argymhellir ar gyfer Lloegr. Y cam cyntaf yn y broses yw ystyried goblygiadau ariannol yr Ysgol Glinigol, o fewn Cylch Cynllunio'r Gyllideb, fel a nodwyd uchod. Wedi hynny, byddwn yn ystyried cyfraniad posibl Ymddiriedolaethau NHS eraill Cymru at unrhyw ehangu pellach.

**Y Camau Nesaf**

13. Mae angen cyrraedd targedau allweddol arnom dros y misoedd nesaf:

- Ystyried achos busnes yr Ysgol Glinigol fel rhan o Gylch Cynllunio'r Gyllideb ar gyfer 2000 – disgwylir erbyn diwedd mis Hydref 2000

- Ystyried yr argymhelliad achos busnes ar gyfer Mynediad i Raddedigion fel rhan o Gylch Cynllunio'r Gyllideb erbyn 2001 – disgwylir erbyn diwedd Mai 2001

- Ehangu fframwaith y prosiect, os ceir cytundeb ar gyllido Ysgol Glinigol, er mwyn ystyried cyfraniad rhannau eraill o Gymru.

**Cydymffurfio**

14. Fe dynnais sylw at yr holl faterion sy'n ymwneud a Chydymffurfio yn fy mhapur HS-15-00 (p6) ym mharagraff 17.

**Cyllid**

15. Tynnwyd sylw at oblygiadau ariannol hyfforddi israddedigion mewn Lleoliadau Clinigol uchod.

16. O ran ariannu'r elfen Addysg, mae setliad Cylch Cynllunio'r Gyllideb ar gyfer 1999 yn cynnwys peth darpariaeth ar gyfer myfyrwyr meddygol ychwanegol o fis Medi 2001 ymlaen – sef cyfraniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru at hyfforddiant academaidd myfyrwyr meddygol israddedig.

**Themâu Trawsbynciol**

17. Rwyf wedi ymdrin â'r rhain yn y papur y cyfeiriais ato ym mharagraff 17 uchod.

**Gweithredu**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn ar ehangu niferoedd y myfyrwyr meddygol yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn yn argymell y dylai unrhyw drafodaeth ar a mater gael ei ohirio hyd nes y byddwn yn gwybod beth yw canlyniad Cylch Cynllunio'r Gyllideb.

**Man Cyswllt**

18. Y man cyswllt ar gyfer unrhyw gwestiynau yw Kim Tester, Pennaeth y Gangen Addysg Feddygol a Deintyddol, Yr Is-adran Adnoddau Dynol.

**JANE HUTT**

**Yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Siart A**

**ARGYMHELLION YNGYLCH EHANGU NIFER Y MYFYRWYR MEDDYGOL ISRADDEDIG YN Y DU**

| **Blwyddyn Darged** | **Targed Lloegr** | **Cyfran Barnet** | **Argymhellion Cymru a Sylwadau** | **Yn Weddill o Barnet** |
|---|---|---|---|---|
| 2000* | 1000 | 60 | 35 o fyfyrwyr ychwanegol wedi dechrau | 25 yn Llai |
| 2001 | | | Bwriedir cael 65 yn ychwanegol, yn ddibynol ar gydsyniad Ysgol Glinigol Abertawe | 40 yn Fwy |
| 2002 | 1000 | 60 | Y potensial i gynyddu ymhellach drwy ddefnyddio'r llwybr mynediad i Raddedigion | Byddai 20 o leoedd ychwanegol yn golygu ein bod yn cyrraedd argymhellion Cynllun Cenedlaethol Lloegr |
| 2005 | 1000 | 60 | Y potensial i gael mwy o gyfraniad gan yr NHS mewn rhannau eraill o Gymru | Byddai 20 o leoedd ychwanegol bob blwyddyn rhwng 2002 a 2005 yn dod â ni yn gydradd |

* Y dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer yr argymhellion a gyhoeddwyd gan MWSAC ym 1997 oedd 2005. Byddai argymhellion Cymru i gynyddu'r niferoedd ym 1999 a 2001 wedi bod o fewn y terfynau amser

gwreiddiol yn rhwydd ond fe gyflymwyd y broses yn Lloegr ac roedd yr 1000 o leoedd i gyd wedi eu llenwi erbyn 2000.